

Hau Hadau Gobaith yn 2022 – lansio apêl EBC

Bob pum mlynedd fe fydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn trefnu apêl arbennig i gefnogi agwedd ar waith Cymorth Cristnogol. I ble'r aeth y pum mlynedd diwethaf ers apêl 'Corwynt Cariad' at y Philipinas, pan godwyd dros y targed, a'r deg mlynedd ers apêl 'Viva Guatemala'?

Efallai fod amser yn mynd heibio ar garlam, ond nid yw llawer o'r anawsterau y mae pobl fwyaf bregus ein byd yn dygymod â nhw yn mynd o'r golwg. Un o'r problemau hynny sy'n effeithio ar bopeth arall yw'r argyfwng newid hinsawdd. Felly, eleni edrychwn ymlaen yn fawr iawn at gael dod i adnabod a dysgu gan ein partneriaid dros **Gyfiawnder Hinsawdd**. Drwy eu llygaid hwy, fe fyddwn ninnau, drwy'r apêl yma, yn dod i ddeall sut mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio ar rai o gymunedau mwyaf bregus ein byd.

'Hadau Gobaith'

Yn wahanol i'n harfer o ganolbwyntio ar un wlad yn arbennig, byddwn yn rhyfeddu ac yn llawenhau wrth weld sut mae unigolion a'u cymunedau mewn dau leoliad yn llwyddo drwy ddyfalbarhad i addasu eu ffordd o fyw, gan sicrhau nid yn unig eu bod yn goroesi ond hefyd yn ffynnu.

Yn gyntaf, byddwn yn cyfarfod â'n partneriaid dros gyfiawnder hinsawdd yn Kenya, yn eu plith, Jennifer Gudere, sy'n gadeirydd Grŵp Merched Siligi, sef PASIDA, a Safia Gagallo a Rose Goloro sydd hefyd yn rhan o'r grŵp. Gweinidog gyda'r Eglwys Lutheraidd Efengylaidd yn Kenya ydy Lole Said Abila. Yna, erbyn mis Medi byddwn yn cael ein cyflwyno i bartneriaid dros Gyfiawnder Hinsawdd yn America Ladin, ac yn benodol yn Honduras.

Beth yw'r nod?

Dymunwn y gorau i bawb yn eu hymdrechion ar ddechrau'r flwyddyn arbennig hon. Wrth gymell ein haelodau a'n heglwysi i roi eleni, rydym wedi gosod targed **o £16 yr aelod, neu £250,000 i'r enwad**. Anogwn chi hefyd yn eich gweithredu, drwy ymateb fel unigolion ac eglwysi i'r Polisi Amgylcheddol, yn ogystal ag ymuno mewn ymgyrchoedd sy'n ymwneud â Chyfiawnder Hinsawdd gan Gymorth Cristnogol.

Gwasanaeth Dechrau'r Apêl

Yn olaf, rydym yn eich annog i weddio dros y gwaith. Croesawn chi'n gynnes iawn i **Wasanaeth Dechrau'r Apêl ar 10 Chwefror, dan arweiniad ein Llywydd, y Parch Evan Morgan, a**

hynny'n rhithiol. Cynhelir gwasanaeth Saesneg am 18.30 o'r gloch dros Zoom, ac yna bydd gwasanaeth Cymraeg yn dilyn am 19.30 o'r gloch.

Dyma'r wybodaeth sut i ymuno (defnyddir yr un ddolen i'r ddau wasanaeth: Saesneg am 18:30, Cymraeg am 19:30.):

<https://us02web.zoom.us/j/82445526290>

[us/j/82445526290](https://us02web.zoom.us/j/82445526290)

Cyfeirif y cyfarfod: 824 4552 6290

Neu, gellir ymuno ar y ffôn drwy ddeialu 0330 088 5830.

Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar ein [gwefan](#), gan gynnwys ffilmiau'r apêl, a gallwch ffonio'r Swyddfa i ofyn am gopiâu caled o unrhyw adnodd ar 02920627465.

Felly, gyda'n gilydd eleni (fel yng ngeiriau Strategaeth Fyd-eang Cymorth Cristnogol), safwn dros urddas, dros gydraddoldeb athrosgyfiawnder. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth a'ch haelioni. Gweddiwn am fendith yr Arglwydd ar ein holl ymdrechion.

*Cheryl Williams, cydlynnydd
Cymorth Cristnogol EBC*





Y Silff Lyfrau



Datod: profiadau unigolion o ddementia, gol. Beti George

Rwy'n cofio bod ar gwrs rywbryd a chlywed rhywun yn disgrifio dementia fel gwylio daearyn yn effeithio ar silffoedd llyfrau. Ystyriwch y llyfrau fel y profiadau a'r atgofion a gewch yn ystod eich bywyd. Dros y blynyddoedd, fe osodwch chi'r llyfrau ar silffoedd y cof, gan ddechrau ar y gwaelod. Caiff eich atgofion cynharaf eu cadw ar y silffoedd isaf, ac rydych chi'n parhau i lenwi'r silffoedd tuag i fyny. Yna daw dementia ar ffurf daearyn ac ysgwyd y silffoedd. Y llyfrau sydd ar y silffoedd uchaf fydd y cyntaf i syrthio, tra bod y llyfrau ar y silffoedd islaw yn dueddol o aros yn eu lle'n hirach.

I mi, roedd y ddelwedd hon yn drawiadol ac yn un hynod effeithiol wrth geisio esbonio mewn modd syml sut yr oedd yr ymennydd yn dirywio gyda'r cyflwr, y ffordd y mae'r atgofion mwyaf diweddar yn cael eu colli a'r rhai cynharaf yn para hiraf. Mae bron yn amhosibl dirnad proses y golled, y breuo a'r dirywiad; mae bron yn amhosib dirnad beth yw natur y clefyd difaol hwn.


Yn y gyfrol *Datod*, mae Beti George wedi casglu nifer o ysgrifau ac erthyglau byrion ynghyd gan sawl cyfrannydd er mwyn rhoi golwg 360° i ni ar ddementia. Cyfrol eglur, wybodus, ddiflewyn-ar-dafod yw hon, ond un sy'n llawn empathi ac emosiwn hefyd.

Tipyn o gamp. Cyfrol gymharol fechan yw hi o ran ei hyd, ond mae'n ddigon, ac mae'n gwneud gwaith aruthrol rhwng ei dalennau.

Drwy gyfrwng ffenestri eu hysgrifau mae gofalwyr a pherthnasau, gan gynnwys un cyfweliad gyda rhywun sydd â dementia arni, yn rhoi golwg i ni ar sut beth ydy byw gyda dementia. Mae'r testimoni'n ddirdynol, digon i lorio'r darlennydd heb sôn am y bobl ddewr a dygn sy'n parhau, ddiwrnod ar ôl diwrnod, i gynnal a chadw eu hanwyliaid tra bod y clefyd creulon a didostur hwn yn creu dinistr. Mae'r system iechyd yn eu herbyn a gofal yn ddrud – mae'n amlwg fod pobl sydd â dementia'n cael eu gadael i lawr, a'u teuluoedd hefyd, sy'n gwneud sefyllafoedd trist yn rhai annioddefol, bron.

Dro ar ôl tro, mae'r ffaith bod y Gymraeg yn hanfodol i les a chysur pobl yn adleisio drwy'r gyfrol fel cytgan, gan bwysleisio bod cerddoriaeth, canu ac emynau yn fodd i leddfuf ofnau am eu bod oll yn ffyrdd uniongyrchol yn ôl at y blynyddoedd cynnar.

Yn ogystal, ceir erthyglau eglur a hawdd eu darllen gan feddygon, gwyddonwyr ac arbenigwyr ar y cyflwr o ran y goblygiadau corfforol, meddygol a gwyddonol. Maent yn esbonio'n union beth sy'n digwydd. Ceir trafodaeth ar yr adnoddau a'r gwasanaeth



sydd ar gael i bobl. Mae'r wybodaeth yn hollol realistig ond nid yw'n gwbl ddiobaith chwaith.

Dyma gyfrol sy'n gwneud cymwynas fawr â ni bob un, oherwydd mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf ohonom naill ai'n adnabod rhywun â dementia, neu'n perthyn i rywun, yn gofalu ar ôl rhywun, neu'n dioddef o ddementia ein hunain. Mae'n bryd i ni i gyd fod yn trafod dementia.

Elinor Wyn Reynolds

Datod: profiadau unigolion o ddementia, gol. Beti George (Y Lolfa, 160tt, 2021, £8.99); adolygiad oddi ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru

Adnoddau gwerthfawr

Ers dechrau'r pandemig, rydym fel criw o weithwyr a gweinidogion o ogledd-orllewin Cymru wedi bod yn cyfarfod yn wythnosol dros Zoom. Mae'r amser yma gyda'n gilydd ar fore Llun wedi bod yn ffordd fendithiol o weddio ac annog ein gilydd. Mae hefyd wedi bod yn gyfle i ystyried rhai adnoddau gwahanol a all fod o gymorth i ni a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu.

Un o'r adnoddau gwerthfawr hynny rydym wedi cael blas arno yn ddiweddar yw'r gyfres o astudiaethau beiblaidd sydd wedi cael ei pharatoi gan fudiad o'r enw CBS (Community Bible Study). Erbyn hyn mae astudiaethau ar dri llyfr o'r Beibl wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Rydym eisoes wedi mynd trwy lythyr Iago a llyfr Ruth, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gwneud ein ffordd trwy Efengyl Marc!

Mae gan CBS ddull neilltuol o astudio'r Beibl i hwyluso darllen ac ymgodymu â'r testun. Cyn yr astudiaeth, ceir cwestiynau dyddiol i'ch cynorthwyo i fyfyrto ar y testun ymlaen llaw fel ffordd o baratoi ar gyfer y drafodaeth gyda'r grŵp. Yn y nodiadau ceir cydbwysedd da rhwng egluro cyd-destun y darlleniad ar un llaw a chwestiynau sydd yn gwneud i rywun feddwl mwy ynglŷn â sut i gymhwyso'r neges i fywyd bob dydd.

Dyma flas ar y math o gwestiynau mae'r nodiadau'n eu codi:

- Pa ddau fath o ddoethineb sy'n cael eu cyflwyno yn Iago 3:13–16? Beth sy'n dangos gwir ddoethineb?
- Wyt ti'n gofyn i Dduw bob dydd am ei ddoethineb? Pam neu pam ddim?

Beth am roi cynnig ar ymuno neu ddechrau astudiaeth yn eich ardal chi? Mae modd cael ragor o wybodaeth am yr adnoddau Cymraeg sydd ar gael drwy gysylltu â mi (alun.thomas@ebcpcw.org.uk) ac fe geisiaf eich rhoi ar ben y ffordd!



Gwaith [Simone Martini](#), Casgliad Samuel H. Kress (NGA)

*Alun Morton Thomas
Cynorthwydd Gweinidogaethol
Gofalaeth Bro Llanfair-pwll a'r Cylch*

Sylw o'r seidin

Hel Achau

Ers rhai blynyddoedd bellach, fe fûm yn ymddiddori mewn ceisio olrhain fy achau. Rydw i wedi elwa tipyn o Gymdeithas Hanes Teuluol Gwynedd a chyn cyfnod Covid roeddwn wedi dechrau ymweld tipyn ag Ystafell Archifau Gwynedd yng Nghaernarfon.

Fe ddechreuodd y cyfan wrth imi geisio canfod lleoliad bedd fy nhaid, Patrick Clarke, a hanai'n wreiddiol o Killincarrick, Co. Wicklow, ond a briododd i mewn i hen deulu Pritchard, sydd â'u gwreiddiau, mae'n debyg, yn nwfyn ym mhriddoedd yr hen sir Gaernarfon. Ar yr ochr arall, roedd y teulu Williams yn hanu o sir y Fflint, a'i wraig yntau'n dod o rywle yn sir Fôn.

Chwarelwyr a siopwyr, seiri coed a seiri maen, a theulu'r rêlwe, postfeistr a chlerc cyngor plwy' tua Chaernarfon, ac un modryb a fu'n gweithio i MI5 am gyfnod byr! Canfyddais hefyd Father Jimmy Clarke, brawd fy nhaid, fu'n offeiriad draw yn Philadelphia. Dyna i chi ryfeddod: dau o weision yr Arglwydd yn yr un teulu, ac eto mewn pegynau diwinyddol a threfniadol eglwysig pell iawn oddi wrth ei gilydd – yntau'n Babydd a finnau'n Hen Gorffyn. Rydw i hefyd wedi canfod fy mod yn berthyn pell i deulu Arfon Haines Davies, trwy deulu Robert Williams, y giard rêlwe. Diddorol yw olrhain y cysylltiadau!



Colli sgwrs

Beth bynnag, arweiniodd y cyfnod hwn at sgwrsiau difyr gyda'm diweddar Modryb Marion, cyfnither fy nhad. Rwyf mor falch imi ymweld â hi a chael llenwi ambell fwlch yn y stori o ochr teuluoedd Caernarfon a Llanberis. Ond dyna fo, fel ambell un tebyg imi, rydym yn gadael y pethau hyn yn rhy hwyr fel arfer, yn rhy hwyr i holi perthnasau a chydabod, a chyfeilion teuluol.

Felly, mae'r darlun hyd yma yn eitha' bylchog, ond er hynny rwyf wedi darganfod beddrodau ym mynwentydd Llanbeblig, Nant Peris a Brynsiencyn. Mae rhai beddrodau tuag Iwerddon, ym mynwent Kilmacanogue yng nghysgod mynydd y Sugar Loaf, lle bu'r hen deulu'n amaethu. Nid wyf wedi cyrraedd y fan honno oherwydd cyfyngiadau teithio Covid ac ati. Ond carwn fynd – ryw ddydd! Ac ie, roedd hen deulu Iwerddon yn gefnogwyr mawr o Parnell a Collins, er does dim sôn iddynt ymuno yn frwydr arfog at geisio Annibyniaeth.

Gwreiddiau cudd

Gwreiddiau – hwnna ydi o. Ai arwydd fy mod yn heneiddio ydy ymddiddori mewn pethau fel hyn? Ydy blas y tir yn dal i glymu amdanom, ac ardal a bro yn ddylanwadau sy'n parhau, ym mêt esgyrn rhywun o hyd? Gwydnwch hen hogia'r garreg las, hoffter at waith coed cywrain, awydd y siopwr i gynnig gwasanaeth, tynfa'r rêlwe i deithio ac ymweld â llefydd oddi cartref. Pwy a wŷyr? Ac mae'r gwreiddiau ysbrydol yn fwy cymhleth byth, gyda chysylltiadau â'r Eglwys Gatholig, yr Eglwys Anglicanaidd, Eglwys Fedyddiedig Libanus, a sawl capel a chynulleidfau o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, heb anghofio'r Annibynwyr hefyd. Licris Olsôrts go iawn!

Tybed ydw i'n 'mixed-up kid' go iawn cyn belled ag y mae'r daith a'r gwreiddiau ysbrydol yn cyfrif?

Na, dwi ddim yn credu. Ond mi wn nad oes gan enwadaeth fel y cyfryw unrhyw afael arnaf, tu draw i'm teyrngarwch diwyro i Eglwys Bresbyteraidd Cymru, y'm hordeiniwyd yn weinidog i Iesu Grist ganddi.

Gwreiddiau mewn cenhadaeth

Ond nid sôn am wreiddiau mewn brics a mortar ydw i, cofiwch. Pobl sy'n bwysig: pobl Dduw, plant Duw, pethau Duw – cenhadaeth Duw. Mae'r byd wedi newid ers rhyw gwta ddwy flynedd – a fedr



pethau yn y byd crefyddol, ysbrydol, fyth fod yr un fath. Er bod gan bawb ohonom ryw wreiddiau yn y manau hynny lle rydym wedi arfer addoli, mae'r alwad i ddadwreiddio ein hunain o afael y gorffennol, a cheisio ffurf a ffyrdd newydd o gynnal y gymdeithas Gristnogol rydym yn ei galw yn eglwys Iesu Grist yn fwy 'urgent' nag erioed.

Cydblethu

Does dim byd yn newydd yn hyn. Drwy Gymru ceir ambell enghraifft o gynulleidfaoedd o enwadau Presbyteraidd, Wesleiaidd, Annibynnol a Bedyddiedig o bosib yn cydaddoli, yn cyd-fyw, yn cyd-genhadu yn gytûn iawn ers blynyddoedd. Mae Capel Noddfa, Bae Trearddur, a Llangollen yn enghreifftiau o hyn, ac enwi dim ond dau safle. Mae gwreiddiau'r bobl dda yma'n dal yn hynod o bwysig iddynt, ond maent wedi canfod ffordd o gerdded ymlaen gyda'i gilydd. Fy nghwestiwn i weddill Cymru ydy hyn: ai dyma ddylai fod y 'norm' bellach, wedi Covid, yn y Gymru grefyddol newydd? Fel arall – pa obaith fydd inni, sydd inni?

Gobeithio

Rwy'n gobeithio y bydd yna fwy o ysbryd i helpu ein gilydd fel sefydliadau Cristnogol yn lleol wrth i afael ac effaith Covid wanio o hyn i ddiwedd y flwyddyn ac ymlaen i 2023.

Ydw, dwi'n dal yn optimistaidd y down ni i'r lan gyda hyn, oherwydd dwi'n dal isio mynd draw tuag Iwerddon gynted â phosib pan ddaw haul ar fryn.

Y peth pwysig i ni, bobl enwadol Cymru, fydd peidio â gadael i ni ein hunain fodd wrth ymyl y lan, heb gydio yn y cyfle i godi, fel ffenics, yn gryfach gyda'n gilydd. Hwnna ydi o – sdim iws canu, 'Pwy fydd yma ymhen can mlynedd?' Pwy fydd yma ymhen blwyddyn a phum mlynedd sydd isio gofyn.

Jim Clarke

Gwewyr a gobaith Llosgfynydd a Tswami Tonga

Ganol fis Ionawr fe ffrwydrodd llosgfynydd tanfor ar ynys Hunga Tonga-Hunga Ha'apai, dwy ynys sydd wedi eu huno gan dir newydd folcanig a ffurfiwyd yn 2015. Roedd y folcano yma gannoedd o weithiau'n fwy pwerus na bom Hiroshima, yn ôl NASA. Gwelwyd effaith y tswami ddaeth yn sgil y ffrwydrad yn Japan, Rwsia, Gogledd America a Pheriw, lle boddwyd dau berson gan don ddwy fetr o uchder.

Collodd tri pherson eu bywyd yn Tonga ac mae llawer wedi colli eu tai a'u heiddo personol, fel pobl ynys Mango. Ar y newyddion cafwyd tystiolaeth dyn 57 oed oedd wedi goroesi ar ôl bod yn y môr am 27 awr. Dywedodd Lisala Folau, sydd yn Gristion, ei fod yn ofnus iawn ar y dechrau ac eto'n credu y gallai Duw ei achub. Mae'n anabl yn ei goesau ond cafodd nerth yr Arglwydd i afael mewn boncyff a chodi uwch y dŵr ar ôl mynd i lawr wyth o weithiau.

Mae difrod mawr wedi dod yn sgil y llosgfynydd gyda'r wifren fibr-optig yn cael ei hollti, gan dorri'r cysylltiad â'r byd tu allan. Serch hynny, mae cymorth wedi bod yn cyrraedd o Seland Newydd ac Awstralia, ac mae mudiadau fel y Groes Goch, Oxfam a Tearfund yn estyn help hefyd.



Gwewyr a gobaith

Yn ôl yr Arglwydd Iesu, mae hyn i'w ddisgwyl yn ein dyddiau ni, sef y dyddiau rhwng ei ddyfodiad cyntaf i'r byd a'i ailddyfodiad ar ddiwedd hanes: 'Byddwch yn clywed am ryfeloedd a sôn am ryfeloedd; gofawch beidio â chyffroi, oherwydd rhaid i hyn ddigwydd, ond nid yw'r diwedd eto ... a bydd adegau o newyn a daeargrynfâu mewn manau. Ond dechrau'r gwewyr fydd hyn oll.' (Mathew 24:7)

Mae'r Arglwydd yn defnyddio darlun genedigaeth. Mae digwyddiadau fel rhyfel, newyn, daeargryn ac erledigaeth yn ddim ond dechrau gwewyr, fel cychwyn poenau gwraig yn esgor cyn geni plentyn. Mae'r Apostol Paul, dan ddylanwad yr Ysbryd Glân, yn defnyddio'r un darlun: 'Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw.' (Rhufeiniaid 8:22)

Felly, fe gawn ddarlun o gyfnod poenus genedigaeth, gyda'r boen yn cynyddu a'r fenyw yn blino, nes bod y baban newydd yn dod i'r byd, gyda rhyddhad a llawenydd mawr.

Dyma sut ddylem ni, fel Cristnogion, ystyried a deall y digwyddiadau hyn yn ein byd. Ydyn, maen nhw'n boenus iawn ac mae difrod mawr yn cael ei achosi, ond yn y darlun mawr, maen nhw'n mynd i arwain at greadigaeth newydd, nef newydd a daear newydd: 'Ond disgwyl yr ydym ni, yn ôl ei addewid ef, am nefoedd newydd a daear newydd, lle bydd cyfiawnder yn cartrefu.' (2 Pedr 3:13)

Mor werthfawr yw'r gobaith byw sydd gennym ar sail atgyfodiad yr Arglwydd Iesu o'r bedd ar ôl marw dros bechod ei bobl ar y groes. Am ei fod Ef wedi ei gyfodi, mae'r Ysbryd Glân wedi dod, ac mae'n bywhau pobl sydd yn farw'n ysbrydol, eu haileni nes iddyn nhw edifarhau a chredu yn Iesu Grist. Maen nhw'n greadigaeth newydd, wedi cael calon newydd i geisio, i garu a gwasanaethu Duw o'u bodd, a brwydro yn erbyn eu pechod. Eu gobaith real yw y bydd Duw yn gorffen y gwaith y mae wedi ei ddechrau ynddyn nhw. Mae hynny'n golygu bod yn gwbl lân a sanctaidd, mewn corff newydd, anlygredig ac mewn nef a daear newydd, heb arlliw pechod na phoen yn agos ato.

Mor fendigedig yw gwybod ein bod yn llaw y Bugail Da, ac felly yn llaw Duw – sydd yn llywio cwrs hanes er mwyn cyflawni ei bwrpas o greu dynoliaeth newydd a chreadigaeth newydd yng Nghrist. Dyma sy'n symud y pryder mawr yng nghanol treialon mawr bywyd: 'Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Am hynny nid ofnwn pe symudai y ddaear, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr.' (Salm 46:1,2)

Boed i ni rannu'r gobaith byw yng nghanol gwewyr ein dyddiau ni.

John Treharne

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Mary Wynne Jones ar ôl cyfnod byr o salwch yn ei chartref yn Nolgellau ddydd Gwener, 28 Ionawr 2022. Gwasanaethodd Mary fel Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru, Llywydd Mudiad y Chwiorydd, Llywydd Cymanfa Dinbych Fflint a Meirion ynghyd â Llywydd Cymdeithas y Senana. Bu'n hynod gefnogol i'w phriod, y diweddar Barchedig Tom Ellis Jones a fu'n gweinidogaethu yn Llamedd, Glanamau a Llandudno. Diolchwn am gyfraniad gwerthfawr Mary i waith y Deyrnas ac estynnwn ein cydymdeimlad dwys a diffuant â'r meibion, Emyr ac Arwel, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Judith Morris

Ysgrifennydd Cyffredinol

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 6 Chwefror, am 7:30yh (ailddarlledir am 11:30yh y Sul canlynol)

Ar ddechrau tymor Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, cawn fwynhau emynau cyfarwydd sy'n ffefrynnau ar y meysydd rygbi ar hyd a lled Cymru, a chawn ddatganiad hyfryd o emyn gwladgarol mawr Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n Gwlad' gan Angharad Brinn.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 6 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp

Cyfle i ailgylwed rhaglen lle mae Rhian Williams yn trafod dylanwad Beethoven a Mendelssohn ar ein hemynyddiaeth.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 6 Chwefror am 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Carys Hamilton, Cwm-ann

Tynnu sylw at y 50 lle mwyaf peryglus i Gristnogion

Affganistan bellach yw'r lle mwyaf peryglus yn y byd i fod yn Gristion, yn ôl adroddiad newydd a ryddhawyd yr wythnos diwethaf.

Daeth y cyhoeddiad gan y mudiad Open Doors UK wrth iddyn nhw lansio'i rhestr flynyddol, Rhestr Wyllo'r Byd, yn rhithiol i Aelodau Seneddol San Steffan. Galwyd ar yr Aelodau Seneddol i gadw'r mater gerbron y Senedd yn gyson ac i weithredu ar eu hymrwymiad dros ryddid pobl i lefaru ac i gredu.


Mae erledigaeth yn real iawn i un ym mhob saith Cristion yn y byd ac ar gynydd bob blwyddyn. Yn y gorffennol, yr arfer oedd rhestru'r hanner cant o wledydd lle roedd y perygl oddi wrth erledigaeth yn amrywio o fod yn 'ddifrifol iawn' i 'uchel'. Bellach, gyda 360 o filiynau o Gristnogion yn cael eu heffeithio ledled y byd, mae'r holl wledydd ar y rhestr yn cael eu dynodi fel rhai lle mae lefel y perygl i Gristnogion yn 'uchel iawn' neu'n 'ddifrifol'.

Fe gymerodd Affganistan le Gogledd Korea ar y rhestr yn ystod 2021 – gwlad sydd wedi bod ar frig y rhestr ers ugain mlynedd, er bod erledigaeth wedi cynyddu yno eleni hefyd.

Adroddodd Henrietta Blyth, Prif Swyddog Gweithredol Open Doors yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, fod eithafwyr Islamaidd yn Affganistan bellach 'yn hela Cristnogion' er mwyn eu gwaredu o'r wlad. Dydy'r sefyllfa fawr gwell yn y gwledydd o gwmpas yr ardal chwaith, gyda Christnogion sydd wedi ffoi yn parhau yn fregus eu hamgylchiadau yn yr holl wledydd o gwmpas Affganistan.

Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad yw fod yr eglwys a Christnogion ar draws y byd yn cael eu dadleoli ac felly'n troi'n ffoaduriaid, gan ychwanegu at eu sefyllfa fregus. Wrth i bobl ffoi rhag trais dan law eithafwyr, mae argyfwng ffoaduriaid / pobl wedi eu dadleoli yn datblygu ar raddfa eang. Mae llawer o Gristnogion sy'n ffoi rhag erledigaeth ymhlith yr 84 o filiynau o bobl

Y 50 gwlad uchaf ar Restr Gwyllo'r Byd Open Doors yn 2022



1 AFGHANISTAN	11 SAUDI ARABIA	21 UZBEKISTAN	31 CENTRAL AFRICAN REPUBLIC	41 MOZAMBIQUE
2 NORTH KOREA	12 MYANMAR	22 ALGERIA	32 BURKINA FASO	42 TURKEY
3 SOMALIA	13 SUDAN	23 MAURITANIA	33 NIGER	43 MEXICO
4 LIBYA	14 IRAQ	24 MALI	34 BHUTAN	44 CAMEROON
5 YEMEN	15 SYRIA	25 TURKMENISTAN	35 TUNISIA	45 TAJIKISTAN
6 ERITREA	16 MALDIVES	26 LAOS	36 OMAN	46 BRUNEI
7 NIGERIA	17 CHINA	27 MOROCCO	37 CUBA	47 KAZAKHSTAN
8 PAKISTAN	18 QATAR	28 INDONESIA	38 ETHIOPIA	48 NEPAL
9 IRAN	19 VIETNAM	29 BANGLADESH	39 JORDAN	49 KUWAIT
10 INDIA	20 EGYPT	30 COLOMBIA	40 DEMOCRATIC REPUBLIC OF CONGO	50 MALAYSIA

■ Lefelau difrifol o erledigaeth ■ Lefelau uchel iawn o erledigaeth

yn y byd sydd wedi eu gorfodi o'u cartrefi (Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid, 2021).

Ar gyfandir Affrica islaw'r Sahara, mae jihadiaeth yn bygwth dadsefydlogi'r ardal gyfan gan greu argyfwng dyngarol eang. Wyneba Cristnogion sydd wedi eu dadleoli yn Syria, Irac, Lebanon a Gwlad yr Iorddonen sefyllfa lle ceir gwahaniaethu yn eu herbyn. Caiff Cristnogion hefyd eu gosod mewn perygl enbyd wrth iddyn nhw gael eu gorfodi i ddychwelyd i'r wlad y bu iddyn nhw ffoi ohoni. Yn Myanmar, mae 200,000 o Gristnogion wedi eu dadleoli ac 20,000 wedi ffoi o'r wlad.

Wrth gloi ei chyflwyniad i Seneddwy'r San Steffan, ychwanegodd Henrietta Blyth: 'Yr allwedd [i helpu i ddiogelu Cristnogion sy'n cael eu herlid] yw fod rhyddid crefydd a chred yn cael ei ddyrchafu a'i gynnal ym mhob gwlad o gwmpas y byd.

'Mae ein llywodraeth wedi dweud eu bod yn awyddus i godi achosion o hawliau dynol fel rhan o'u polisi tramor a thrafodaethau masnach, ac rydym am weld eu bod yn cadw at yr ymrwymiad hwnnw.'

Ein Tad Nefol,

Wyla ein calonnau wrth inni glywed am yr erledigaeth gynyddol y mae ein brodyr a'n chwiorydd yn ei hwynebu. Yrydym yn erfyn arnat ar eu rhan.

Annog nhw yn eu ffydd, nertha nhw i sefyll yn gryf a grymusa nhw yn eu bywyd a'u tystiolaeth.

Diogela nhw rhag niwed a thyrd ag iachâd i bawb sydd ei angen heddiw.

Bydded i lawer mwy wybod am eu hamgylchiadau, gan gynnwys y rheiny sydd â grym yn eu dwylo a all ddefnyddio'u dylanwad er mwyn dod â newid er daioni iddyn nhw. Amen.

Gweddi gan Open Doors

I ddarllen yr adroddiad cyflawn i'r Senedd ac enwau'r 50 o wledydd ar Restr Wyllo'r Byd gan Open Doors, ewch i'w gwefan: <https://www.opendoorsuk.org/resources/world-watch-list/>

Edrychwn ymlaen at weld yr adnoddau yn Gymraeg ar y we yn fuan.



Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

Rhoi theori ar waith

13 Heddwch, cyfiawnder a gwleidyddiaeth

Darllen: Eseia 42:1-7

“Dyma fy ngwas, yr wyf yn ei gynnal, f’etholedig, yr wyf yn ymhyfrydu ynddo. Rhoddais fy ysbryd ynddo, i gyhoeddi barn i'r cenedloedd.

...

I agor llygaid y deillion, i arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell.” (adn 1,7)

Cri gyffredin yw gwaedd ingol plentyn ifanc yn dweud, ‘Dydy hi ddim yn deg!’ Ac mae'n ein hatgoffa bod gennym ni synnwyr cynhenid o gyfiawnder yn rhan ohonom o'n blynyddoedd cynnar, a pha mor bwysig yw cael ein trin yn gyfartal. Yn wir, mae ein bywydau cyfan yn dibynnu arno. Disgwyliwn gyfradd deg o gyflog am y gwaith a wnawn, a chymerwn yn ganiataol na fyddwn yn cael ein harestio dim ond am yrru i lawr y ffordd. Pan fydd y pethau hyn yn mynd o chwith, caiff rhywbeth dwfn y tu mewn inni ei anesmwytho. Ymateb i'r synnwyr yma o anghyfiawnder y mae pobl ifanc ddu sy'n cwyno am y nifer anghymesur o weithiau y cânt eu stopio ar y stryd gan yr heddlu, fel y mae'r rheiny y mae eu cyflog yn cael ei gapio'n ymateb wrth weld cynffonnau moch tew yn cael eu hiro wrth dderbyn miliynau. Mae cyfiawnder yn argyhoeddiad dynol dwfn a sefydlog, am ei fod yn adlewyrchiad o gymeriad Duw ei hun. Mae'r Salmydd yn ysgrifennu, ‘Y mae'n caru cyfiawnder a barn’ (Salm 33:5).

Ceir cysylltiad annatod rhwng heddwch a chyfiawnder. Mae angen cyfiawnder er mwyn i heddwch ffynnu, ac i'r gwrthwyneb ni all fod cyfiawnder heb heddwch. Cyn y Nadolig, fe edrychon ni ar yr adnod gyfarwydd, ‘Canys bachgen a aned i ni ... ac fe'i gelwir ...Tywysog Tangnefedd’ (Eseia 9:6). Fel hyn mae'r adnod nesaf yn dilyn:

Ni bydd diwedd ar gynnydd ei lywodraeth, nac ar ei heddwch i orsedd Dafydd a'i frenhiniaeth, i'w sefydlu'n gadarn â barn a chyfiawnder, o hyn a hyd byth. (Eseia 9:7)

Felly, bydd heddwch diddiwedd y deyrnas hon yn cael ei sefydlu gyda chyfiawnder a barn. Os felly, beth mae cyfiawnder yn ei olygu mewn gwirionedd?

Yn Eseia 42:1-7, fe gawn ni'r gyntaf o bedair cân y gwas, fel y'u gelwir, sy'n sôn am y Meseia sydd i ddod. Yn y broffwydoliaeth ddigamsyniol hon, dywedir wrthym fod Duw yn ymhyfrydu ynddo (adn 1), ei fod yn addfwyn yn ei gymeriad a'i leferydd (adn 2-3) ac ‘ni fydd yn diffodd, ac ni chaiff ei ddryllio, nes iddo osod *barn* ar y ddaear’ (adn 4, pwyslais wedi ei ychwanegu). Mae'r adnodau hyn yn cael eu cymhwysu'n uniongyrchol at Iesu yn Mathew 12:15-21.

Yn yr adnodau hyn, felly, nod y Meseia sydd i ddod, y Tywysog Tangnefedd, yw dwyn cyfiawnder i'r ddaear. Cofiwch, heb gyfiawnder ni all fod heddwch; felly, os heddwch yw'r nod, cyfiawnder yw'r modd. Ychydig o adnodau yn ddiweddarach, mewn darn wedi'i gyfeirio at y gwas sydd i ddod, caiff cyfiawnder ei ddarlunio fel hyn:

“I luniais di a'th osod yn gyfamod pobl, yn oleuni cenedloedd; i agor llygaid y deillion, i arwain caethion allan o'r carchar, a'r rhai sy'n byw mewn tywyllwch o'u cell.” (Eseia 42:6-7)

Yma gwelwn natur ymarferol iawn cyfiawnder. Bydd Iesu, y Tywysog Tangnefedd, yn oleuni i'r cenedloedd, yr hwn a fydd yn goleuo'r ffordd adref i le diogel, fel y gwelir pan ddywed Iesu amdano'i hun, ‘myfi yw goleuni'r byd’ (Ioan 8:12). Dywedir wrthym y bydd y Meseia yn dod â chyfiawnder trwy agor llygaid y deillion, geiriau y gellir eu cymryd yn ffigurol ac yn llythrennol.

Yn ffigurol, mae dallineb i Dduw yn cael ei ddefnyddio i siarad am yr angen sydd gennym am gyfarfyddiad â Duw. Mae'r apostol Paul yn defnyddio'r ddelwedd fel hyn wrth ysgrifennu at y credinwyr Iddewig yn Rhufain: ‘Amdanat ti, fe ddichon dy fod yn cario'r enw “Iddew” ... Fe ddichon dy fod yn argyhoeddedig dy fod yn arweinydd i'r dall, yn oleuni i'r rhai sydd mewn tywyllwch ... Os felly, ti sy'n dysgu arall, oni'th ddysgi dy hun?’ (Rhufeiniaid 2:17-21).

Yn amlwg, mae'n siarad am ddallineb ysbrydol. A chyn i ni lithro i ystrydebau diog am y rhai o grefyddau eraill ‘mewn tywyllwch’, efallai y gallem ystyried y gellid dadlau bod pobl o greddau arall yn llai dall na llawer yn y gorllewin seciwlar nad ydynt yn arddel unrhyw ffydd. Ac a ydym yn hyderus nad ydym ninnau, sydd wedi dod i ffydd, yn ddall ein hunain? I anghenion ein

cymdogion? I'r blaenoriaethau rydyn ni'n eu dilyn mewn bywyd? Gadewch inni fod yn araf i farnu (Rhufeiniaid 2:1).

Ond, o blith y gwyrthiau niferus a wnaeth Iesu, rhoddodd hefyd olwg corfforol i'r ddall, yn arwydd o'r deyrnas i ddod, lle na fyddai afiechyd a marwolaeth mwyach. Mater o gyfiawnder yw iacháu'r claf, yn enwedig mewn byd lle gellir gwella cymaint o afiechydon am werth ychydig o geiniogau o frechlyn imiweiddio i blant.

Mae synnwyr tebyg i ddod â charcharorion allan o dywyllwch. Gellir ei ddehongli'n llythrennol, ac mewn byd lle mae charcharorion mewn llawer o wledydd bron cystal â bod yn cael eu hanghofio, a'r allwedd yn cael ei thafu i ffwrdd, yn gorfod goroesi dan amodau ffaidd, mae dod â gobaith hyd yn oed i'r rhai sy'n euog yng ngolwg y gyfraith yn atseinio trugaredd Duw maddeugar. Ond mae dimensiwn arall i garcharu, oherwydd tlodi yw'r cyfyngwr mwyaf ar ryddid yn unrhyw le yn y byd. Mae'r Salmydd yn glir: ‘Gwn y gwna'r ARGLWYDD gyfiawnder â'r truan, ac y rhydd farn i'r anghenus.’ (Salm 140:12) Caiff cannoedd o filiynau o bobl heddiw eu carcharu gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Fe'u genir yn dlawd ac maent yn methu dianc rhag tlodi, oherwydd mae'r cardiaid wedi eu pentyrru yn eu herbyn. Yn y cyfamser, mae'r rhai ohonom sy'n well ein byd yn gallu cynyddu ein cyfoeth dim ond oherwydd bod gennym ni gyfoeth i ddechrau. Golygai'r bywyd teuluol a gefais i yn fy mhentyndod cynnar, ynghyd ag addysg ragorol, y gallwn i ffynnu, cael swydd dda ac, ymhen amser, prynu tŷ, sydd yn ei dro wedi cynyddu yn ei werth lawer gwaith yn fwy na beth dalais i amdano. Mae pobl mewn tlodi yn aml yn cael traferth yn addysgol, ac felly mae eu plant yn gwneud yr un peth. Ar y pen eithafol, mae miliynau o blant yn rhoi'r gorau i'r ysgol oherwydd bod angen iddynt weithio i gefnogi eu teuluoedd, a'r cylch o dlodi yn parhau.

A yw'r rhain yn faterion sy'n perthyn i'r efengyl? Ydyn! Maen nhw'n faterion sy'n perthyn i'r efengyl oherwydd eu bod yn faterion y deyrnas, oherwydd eu bod yn ymwneud â ffyniant dynol – addysg fel llwybr allan o dlodi; gofal meddygol fel drws i lesiant; swyddi a chyfleoedd fel dathliad o'r galluoedd y mae Duw wedi eu rhoi inni. Hyd yn oed yn ein gofal a'n cymorth i'r henoed, y claf neu'r anabl, ein nod yw bod pawb yn byw gydag urddas ac nad ydynt yn cael eu mesur yn ôl rhyw ddangosydd o werth economaidd.

Mae efengyl heddwch, hyrwyddo cyfiawnder a'r wleidyddiaeth sy'n siapio ein byd – wedi eu cydblythu i gyd a phob un ymhlyg yn y bywyd o ffydd y byddwn yn ei fyw fel Cristnogion.

Gwahoddiad

gan gydlynwyr Dorcas i astudio Gweddi'r Arglwydd

Pan ofynnodd disgyblion Iesu iddo am help gyda gweddi, rhoddodd yr amlinelliaid syml ond syfrdanol hwn iddyn nhw.

Mae'r weddi hon wedi cael ei thrysori gan Gristnogion o'r cychwyn cyntaf, ac rwy'n siŵr eich bod wedi ailadrodd y weddi hon droeon. Rwy'n cofio dysgu'r weddi yn yr ysgol a'i hadrodd mewn gwasanaethau, ac ar un achlysur cerddais allan o wasanaeth am fod y dirprwy bennaeth wedi gwneud i ni ailadrodd y weddi fel cosb am beidio â'i dweud yn ddigon uchel y tro cyntaf!

Ond bu adegau hefyd yn fy mywyd Cristnogol pan adroddais weddi'r Arglwydd oherwydd mai dyma'r unig weddi y gallwn ei hadrodd – adegau pan oedd Duw yn ymddangos ymhell i ffwrdd neu pan oedd amgylchiadau'n fy llethu, pan oeddwn yn dymuno gweddi ond nad oedd y geiriau'n dod yn rhwydd. Mae'n rhaid i mi gyfaddef hefyd fy mod weithiau'n ailadrodd gweddi'r Arglwydd heb wir ymgysylltu â'r ystyr; mae mor gyfarwydd fel nad yw'n golygu llawer.

Tybed a oes gennych chi atgofion a phrofiadau tebyg?

Yn y weddi hon mae Iesu'n crynhoi'r mathau o geisiadau y mae Duw yn

ymhyfrydu fwyaf yn eu hateb. Mae llawer o esbonwyr hefyd yn dweud nad patrwm ar gyfer gweddi yn unig yw hwn – mae hefyd yn batrwm ar gyfer bywyd ac yn ein dysgu sut i fyw ym mhresenoldeb Duw.

Dywed Tim Keller, yn ei lyfr, *Prayer*, 'Mae Iesu'n dweud, fel petai, "Oni fydddech chi'n hoffi dod wyneb yn wyneb â Thad a Brenin y bydysawd bob dydd, i dywallt eich calon iddo, a'i synhwyro'n gwrando arnoch chi ac yn eich caru?" Dywedwn: byddwn, wrth gwrs. Mae Iesu'n ymateb, "Mae'r cyfan yng ngweddi'r Arglwydd".'

Beth am ymuno â ni i astudio gyda merched o bob cwr o Gymru mewn awyrgylch anffurfiol a chyfeillgar? Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl, ac rydym yn siŵr y cewch eich bendithio wrth i ni ofyn gyda'r disgyblion, 'Arglwydd, dysg ni i weddio.'

Rydym yn cwrdd ar Zoom bob yn ail wythnos, gan ddechrau nos Lun, 31 Ionawr, am 7 o'r gloch (bydd yn cael ei ailadrodd am 1.30 o'r gloch brynhawn dydd Gwener, 4 Chwefror). Cewch fanylion ar sut i ymuno gan Eirian Roberts: eirian.roberts@ebcpw.cymru

Sarah Morris

'A'r mwyaf o'r rhai hyn...'

Cariad mam yw'r cyntaf brofwf, cysur côl fel siôl drysorwn, tra bydd hi'n ein swatio'n dyner ffoi wna pryder, ymdawelwn.

Cariad teulu clôs a ffrindiau ddaw i'n lapio, llywio'n dyddiau, nes y down yn fwy hyderus i gamu'n fentrus draw o'n gwreiddiau.

Cariad cymar, fel adenydd, ddaw gan siffrwd alaw newydd, hedfan wnawn rhwng haul a chawod, cynnig cysgod wnawn i'n gilydd.

Ond pris cariad yw'r hen hiraeth ddaw pan gollwn law cwmniaeth, torri'r cylch wna'r ffârwel creulon, llenwi'r galon ag amheuaeth.

Treigla'r oriau, daw edwino, ond mae Cariad nad yw'n llacio, Duw biau'r llaw na wna ein gollwng mewn argyfwng – diolch iddo!

Cerdd gomisiwn o waith Annes Glynn ar y thema 'Cariad' a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr/Chwefror 2022 o'r cylchgrawn *Cristion*. Ceir cerdd gyffelyb ym mhob rhifyn o *Cristion*, pob un ohonynt â llun cefndir hynod drawiadol.

Tybed ydych chi'n derbyn *Cristion* yn rheolaidd? Mae modd prynu copi yn eich siop Gymraeg leol, neu gellir archebu copi drwy'r post yn uniongyrchol am flwyddyn gyfan am £15, yn cynnwys cludiant. Mae modd archebu copïau ar gyfer yr eglwys yn ogystal, a hynny ar delerau ffafriol. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan www.cristion.net

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Weinidogaeth Iacháu
Gobeithir cynnal yr Ysgol Haf eleni
Canolfan Gristnogol Cefn Lea,
Dolfor, ger y Drenewydd.
23 –26 MAI 2022


Cysyllter â Nerys Rowlands am fwy
o wybodaeth

nerysrowlands@hotmail.co.uk

neu 01678 530407

Dalier sylw:

mae croeso cynnes i bob un ymuno
yn yr Ysgol Haf ac mae cymorth
ariannol ar gael tuag at y gost
o'i mynychu.



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

'Dyma'r bore, byth mi gofiau'

Ar hyd y canrifoedd mae yna bobl sy'n cyfeirio at eu profiad o gyfarfod â Duw fel profiad o 'glywed llais o'r nef'. Geiriau dynol a dorrodd ar eu clyw; arwyddocâd dwyfol a glywsant. A dyna a gawn yn ein darlleniadau heddiw, sef disgrifiadau o brofiad tri pherson wrth iddynt gyfarfod yr Arglwydd. Cafodd Eiseia weledigaeth ryfeddol o sancteiddrwydd yr Arglwydd ynghyd â'i bechod ei hun a'i gyfoedion. Tywalltodd y Salmydd ei ryfeddod mewn mawl. Arswyddodd Pedr wrth ganfod ei bechod ei hun ym mhresenoldeb Iesu. I bob un o'r cymeriadau hyn daeth 'bore, byth mi gofiau' i drawsnewid eu bywydau.

Gweddi

Duw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, addolwn di. Mewn llawer dull a modd yr wyt wedi llefaru â phobl am Iesu Grist, cyflawniad disgwyliadau'r oesoedd, torrwr pob syched. Tyrd atom heddiw, a thrwy dy Ysbryd Glân 'dangos i ni olud Crist yn fodd i fyw'. Amen.

Eryn 42 'Sanctaid, sanctaid, sanctaid'

Darlleniad Eiseia 6:1-13 – Sancteiddrwydd a galwad

Beth tybed oedd yn mynd drwy feddwl Eiseia wrth iddo ddringo i'r deml y diwrnod bythgofiadwy hwnnw? Awgrymodd rhai esbonwyr fod y cofnod am 'Alwad Eiseia' wedi ei gamleoli. Oni ddylai ei alwad fod yn y bennod gyntaf ac nid yn y chweched bennod, meddant? Yn wir, mae'n bos i ni geisio dychmygu pam y trefnwyd y gyfrol yn y fath fodd.

Pan edrychwn ar lyfr Eiseia, fe welwn yn y pum pennod gyntaf ŵr oedd yn ymwybodol iawn nad oedd pethau'n 'iawn' yn ei wlad. Roedd ei genedl wedi cefnu ar yr Arglwydd, anghyfiawnder ar gynnydd, a'i genhedlaeth ei hun yn 'puteinio' eu perthynas â'r Arglwydd. Gwinllan ddrud o blaniad dwyfol oedd ei bobl, ond gwinllan a ddygodd ffrwyth chwerw oeddent. Deuai barn Duw ar ei bobl. Ond dyheai Eiseia am y dydd y byddai'r bobloedd yn dylifo i dŷ'r Arglwydd: byddai cyfiawnder a heddwch yn ffynnu, a blaguryn byw yn codi o dir sych.

Y bore bythgofiadwy hwnnw llyncwyd meddyliau Eiseia gan weledigaeth o fawl y nef, o sancteiddrwydd yr Arglwydd, a'i angen ei hun am faddeuant a glanhad. Nid troseddau pobl eraill yn unig a'i blinai

mwyach ond hefyd ei gamwri ei hun. Ef ei hun oedd yr un, fel ei genedl ei hun, oedd angen maddeuant. O'r cyfarfyddiad rhyfeddol hwn ac o brofi glanhad nefol, daeth galwad. Galwad i fod yn dyst i fawredd yr Arglwydd er na fyddai derbyniad i'w neges, nac edifeirwch.

Y cyfarfyddiad grasol hwn a alluogodd Eiseia i gyflawni ei weinidogaeth broffwydol mewn dyddiau dreng.

Darlleniad Salm 138 – Gogoniant a chariad

Pan blygodd y Salmydd ym mhresenoldeb ei Arglwydd, wrth iddo 'ymgrymu tuag at dy deml sanctaidd', nid oedd ei amgylchiadau'n ymddangos yn ffafriol. Yr oedd yn wan, yn isel, mewn cyfyngder, wedi ei ddarostwng, a gelynyon lu yn ei fygwth. Er hyn, fe'i rhyddhawyd i glodfori (adn 1, 2). Cymaint oedd ei awydd i ganmol nes iddo ddyheu hefyd y byddai 'holl frenhinoedd y ddaear [yn] dy glodfori' (adn 4). Gallai ddiolch am ffyddlondeb Duw, am iddo ei ateb (adn 2), a chynnyddu'i nerth. Rhyfeddai fod yr Arglwydd dyrchafedig hefyd yn cymryd 'sylw o'r isel' ac yn cyfarfod ag ef yn ei gyfyngder, yn ei adfywio, yn ei waredu, yn 'gweithredu ar fy rhan'. Ei ddiogelwch a'i hyder yw 'bod cariad Duw hyd byth nac yn cefnu ar waith ei ddwylo'.

Yn ganolog i'w fawl oedd y rhyfeddod bod yr Arglwydd yn gweithredu'n gyson ym mhob cenhedlaeth. Dyma'r Arglwydd sy'n dyrchafu ei 'enw', hynny yw, ei gymeriad, ei anrhydedd, ei urddas. A dyrchafa hefyd ei 'air', sef yr hyn sy'n tystio i'w gymeriad, ei sancteiddrwydd, a'i weithredoedd creadigol ac achubol. Ymgawdolodd y cyfan drwy ei Air, a ddaeth yn gnawd yn Iesu Grist.

Trwy fywchau ei 'air' yng nghalonau pobl mae Duw yn datguddio'i ogoniant o oes i oes ac ym mhob cenhedlaeth.

Pan edrychwn ar y ffordd y mae pobl yn adrodd eu tystiolaeth i'w ffydd, neu pan edrychwn ar fudiadau 'adnewyddol' neu 'ddiwgygiadol', mae'n debyg mai'r llinyn mesur sy'n ein galluogi i adnabod eu dilysrwydd yw hyn. A ydynt yn dyrchafu gair ac enw'r Arglwydd uwchlaw popeth?

Darlleniad Luc 5:1-11 – Gwahoddiad a galwad

Nid mewn 'mannau cysegredig' yn unig, neu mewn myfyrdodau dwys, y datguddir

gogoniant yr Arglwydd. Y diwrnod rhyfeddol hwn ar lan Llyn Genasaret daeth Iesu, gan gyhoeddi 'gair Duw', yn agos at bysgotwyr lluddedig oedd ar fin gorffen eu shift nos. Gall ymweliadau Iesu'n aml ddigwydd ar yr amser lleiaf cyfleus! Gofynnwch i Herod, neu'r bugeiliaid, neu Pilat.

Trwy ufuddhau i air Iesu gollyngodd Pedr ei rwydau a chael 'nifer enfawr' o bysgod. Fe fyddem wedi disgwyl y byddai Pedr wedi diolch fod ei ymdrechion wedi troi yn elw. Ond, wyneb yn wyneb ag Iesu, argyhoeddwyd Pedr o'r ffaith mai 'dyn pechadurus wyf fi'. Fel Adda yn yr ardd, oedd am guddio pan glywodd lais ei Arglwydd, awydd Pedr oedd gofyn i'r Arglwydd fynd oddi wrtho. Ond ar ei liniau yng nghwmni Iago ac Ioan, mewn rhyfeddod, am y tro cyntaf cyffesodd mai Iesu yw'r 'meistr' (adn 5), yr Arglwydd (adn 8). O'r cyfarfyddiad cychwynnol hwn, o'r profiad dechreuol hwn, tyfodd adnabyddiaeth Pedr o'r Arglwydd. Trodd yr alwad gychwynnol annelwig i 'ddal dynion' yn rheidrwydd i dystio i fawredd ei Arglwydd: 'Ni allwn ni dewi â sôn am y pethau yr ydym wedi eu gweld a'u clywed' (Actau 4:20).

Crynoi

Yn y darlleniadau heddiw gwelsom fod cyfarfod â'r Arglwydd Sanctaid yn arwain at hunanadnabyddiaeth ddofn o'n pechadurusrwydd a'n hangen am faddeuant. Trwy ei air, mae'r Arglwydd yn dyrchafu ei enw. Ac yn y cyfarfyddiad grasol hwnnw o fawredd yr Arglwydd down hefyd yn addolwyr, yn dystion naturiol i'w ddaioni. Ni fydd yr eglwys byth yn fodlon hyd nes bydd y ddaear yn llawn o ogoniant yr Arglwydd.

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, rydym yn blino ar gadw dyddiadau a gwyliau ac allanolion crefyddu. Carem, fel Eiseia, dy ganfod, neu, fel Pedr, gael ein darganfod gennynt. A wnei di ddeffro ynom o'r newydd awydd i'th addoli ac i dystio i'th ysblander a'th ras? Drwy dy Ysbryd Glân, caniatâ i ni dy wasanaethu heb gyfrif y gost. Tania ynom o'r newydd ryfeddod at dy ras, hiraeth i ddyrchafu dy air a'th enw, nerth i fod yn dystion diflino i'th ogoniant.

Eryn 330 'Fy Nuw, fy Nhad'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)